| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **3 Gorffennaf 2013** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r diweddaraf i'r Pwyllgor ar gynnydd Archwilio Mewnol o ran darparu gwasanaeth, darparu sicrwydd, cwblhau adolygiadau, perfformiad ac effeithiolrwydd wrth weithio tuag at welliant.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I roi'r diweddaraf i Aelodau ynglŷn â:

- darparu ein Cynllun Sicrwydd ar gyfer 2013/14
- adroddiadau Archwilio Mewnol diweddar a gyhoeddwyd
- ymateb y rheolwyr i'r materion a godwyd
- perfformiad yr Archwiliad Mewnol

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn rhoi sylwadau ar gynnydd a pherfformiad Archwilio Mewnol yn 2013/14
- Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn rhoi sylwadau ar adroddiadau Archwilio Mewnol diweddar
- Bod y Pwyllgor yn ystyried yr ymatebion i'n gwaith dilynol

## 4. Cynnydd Archwilio Mewnol

***Darparu'r Cynllun Sicrwydd Archwilio Mewnol 2013/14***

4.1. Mae Atodiad 1 yn dadansoddi ein gwaith yn ystod 2013/14, mewn cymhariaeth â'r Strategaeth Archwilio Mewnol a gytunwyd. Mae'n cynnwys y sgoriau sicrwydd a'r nifer o faterion a godwyd yn dilyn yr adolygiadau gorffenedig, y diffiniadau a ddefnyddiwyd i ffurfio'r archwiliad a'r raddfa a ddefnyddiwyd i asesu'r lefel risg ar gyfer y materion a godwyd.

**Crynodeb o Adroddiadau Archwilio Mewnol Diweddar a gyflwynwyd**

4.2. Mae ein hadroddiadau'n defnyddio lliwiau ar gyfer sgoriau sicrwydd fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| **Gwyrdd** | Sicrwydd Uchel | Risgiau a rheolaethau'n cael eu rheoli'n dda |
| **Melyn** | Sicrwydd Canolig | Risgiau wedi'u nodi ond maent yn gynwysadwy ar lefel gwasanaeth |
| **Oren** | Sicrwydd Isel | Risgiau wedi'u nodi sydd angen cyfarfod gyda'r Cyfarwyddwr/Aelod Arweiniol |
| **Coch** | Dim sicrwydd | Risgiau sylweddol wedi'u nodi sydd angen cynhadledd achos aelod / swyddog |

4.3. Ers fy adroddiad ym Mai 2013, rydym wedi cyflwyno'r adroddiadau canlynol.

| **Adroddiad Archwilio** | **Barn Archwilio** | **Materion a godwyd** | | | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Risg gritigol (Coch)** | **Risg fawr (Oren)** | **Risg ganolig (Melyn)** | |
| Menter Brecwast am Ddim LlC | **Uchel** | 0 | 0 | 0 | Ni chyhoeddwyd adroddiad. Cadarnhad trwy e-bost i LlC yn unig. |
| Cyllid Myfyrwyr Addysg Uwch LlC | **Uchel** | 0 | 0 | 0 | Adroddiad crynodeb yn unig |
| Systemau Ariannol – Rhuthun 2012/13 | **Canolig** | 0 | 1 | 7 | Terfynu'r prosiect 2012/13 |
| Rheoli Risg | **Canolig** | 0 | 0 | 4 | Terfynu'r prosiect 2012/13 |
| Ysgol Clawdd Offa, Prestatyn | **Isel** | 0 | 0 | 21 | Cyfarfod cynnydd 07/06/13 |

***Ymateb y rheolwyr i faterion a godwyd gan Archwilio Mewnol***

4.4. Mae'r mwyafrif o'n hadroddiadau Archwilio Mewnol yn nodi'r risgiau ac yn rheoli gwendidau. Rydym yn sgorio'r rhain fel risg gritigol, risg fawr neu risg ganolig. Mae rheolaeth yn cytuno ar y camau i fynd i'r afael â'r risgiau, gan gynnwys cyfrifoldebau a therfynau amser.

4.5 Rydym yn rhoi adroddiad am yr holl achosion lle nad ydyw rheolaeth yn llwyddo i ymateb i'n gwaith dilynol, neu lle maent yn mynd dros y dyddiad gweithredu y cytunwyd arno o fwy na thri mis. Mae'r Pwyllgor hwn yn penderfynu a oes angen cymryd camau pellach, er enghraifft, drwy alw'r bobl berthnasol i'w gyfarfod nesaf neu ofyn am adroddiad ysgrifenedig i esbonio'r diffyg cynnydd.

4.6 Ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw fater i'w godi gyda'r Pwyllgor ond byddwn yn darparu adroddiad llafar yn y cyfarfod ar ein hadolygiad dilynol diweddaraf o AD Strategol.

***Perfformiad Archwilio Mewnol***

| *Sicrwydd hanfodol – pob targed 100%* |
|---|
| **Adolygiad o'r meysydd Sicrwydd Ariannol y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Sicrwydd erbyn 31/03/14** |
| Hyd yma rydym wedi cwblhau 50% o'r prosiectau a gynlluniwyd, gydag eraill i'w cwblhau cyn 31 Mawrth 2014. |
| **Adolygiad o'r meysydd Sicrwydd Grantiau ac Ardystio y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Sicrwydd erbyn 31/03/14** |
| Hyd yma rydym wedi cwblhau 40% o'r prosiectau a gynlluniwyd, gydag eraill i'w cwblhau cyn 31 Mawrth 2014. |
| **Adolygiad o'r meysydd Sicrwydd Llywodraethu Corfforaethol y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Sicrwydd erbyn 31/03/14** |
| Mae'r rhan fwyaf o'r prosiectau hyn wedi eu trefnu ar gyfer yn ddiweddarach yn y flwyddyn er mwyn caniatáu amser ar gyfer cynnydd ar y Cynllun Corfforaethol. Hyd yma rydym wedi cwblhau 5% o'r prosiectau a gynlluniwyd. |
| **Adolygiad o'r meysydd Sicrwydd Risg Corfforaethol Uchel y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Sicrwydd erbyn 31/03/14** |
| Bydd yr holl brosiectau hyn yn cael eu cwblhau erbyn yr hydref. |

| *Safonau Cwsmeriaid – pob targed 100%* |
|---|
| **Cysylltu â chwsmeriaid o leiaf 2 wythnos ymlaen llaw i drefnu dyddiad addas ar gyfer ein hymweliad** |
| Dim data wedi'i gofnodi hyd yma |
| **Anfon y Ddogfen Cwmpasu Prosiect y cytunwyd arni at y cwsmeriaid cyn i ni ddechrau'r gwaith** |
| Dim data wedi'i gofnodi hyd yma |
| **Anfon adroddiad drafft at y cwsmer o fewn 10 diwrnod gwaith o'r cyfarfod cau** |
| Perfformiad cyfredol 100% |
| **Anfon ein hadroddiad archwilio terfynol at y cwsmer o fewn 5 diwrnod gwaith o gytuno ar y drafft** |
| Perfformiad cyfredol 100% |